RSPB

llais natur

TIRWEDD Y DYFODOL

LLE I FYD NATUR, TIR I GYNNAL BYWYD



CYMRU

RHAGAIR

Ers degawd a mwy, mae'r RSPB wedi bod ar flaen y gad wrth adfer rhai o'n cynefinoedd bywyd gwyllt mwyaf eiconig. Ymysg yr enghreifftiau mae ucheldir gwyllt ac eang Cymru, gwlyptiroedd egnïol yn y Fens, rhannau o'n harfordir hardd a mawnogydd anghysbell a dirgel Caithness a Sutherland. Mae ein rhestr o bartneriaid, noddwyr a chyfeillion yn hynod drawiadol. Gyda'n gilydd, rydym wedi dechrau pwytho ynghyd ddarnau darniog o'n hamgylchedd naturiol.

Mae'n gychwyn da ond daw her ar ôl her, ac mae'r agenda newydd yn cael ei gosod gan ystod eang o faterion. Ymysg y rhain mae addasu ein tirweddau ar gyfer hinsawdd sy'n newid er mwyn creu lle i fywyd gwyllt allu symud a sefydlu tiriogaethau newydd, gwarchod y systemau naturiol sy'n rhoi i ni ein pridd, ein dŵr glân ac amddiffynfeydd naturiol yn erbyn llifogydd niweidiol a llu o wasanaethau ecosystem eraill. Yr hyn sy'n hollol amlwg yw bod y gorchwyl hwn ymhell y tu hwnt i unrhyw sefydliad unigol. Fframwaith nodweddiadol yr RSPB ar gyfer cyfrannu at y chwyldro mewn cadwraeth ar raddfa'r dirwedd yw Tirwedd y Dyfodol ac mae'n angenrheidiol ar gyfer ateb heriau'r 21ain ganrif.

Wrth wraidd unrhyw fentr gadwraeth lwyddiannus mae'r bobl sy'n ei rhoi ar waith. Man cychwyn ein rhaglen Tirwedd y Dyfodol fydd sefydlu partneriaethau, a datblygu dealltwriaeth ac ymrwymiad ar y cyd i lunio gwell dyfodol i ni ac i fyd natur sy'n rhannu ein hynysoedd sydd fwyfwy o dan bwysau.

Un o'm hoff leoedd yw Ffen Lakenheath – mae'n warchodfa natur yr RSPB. Bymtheng mlynedd yn ôl, roedd yn gae moron a bellach mae'n cynnal adar y bwn a garanod sy'n nythu.

Er fy mod yn falch o'r hyn a wireddwyd gennym yn Lakenheath rydw i'n sylweddoli ar yr un pryd nad yw'n hanner digon. Yn 2010 dylem fod wedi llwyddo i ddod â cholledion mewn bioamrywiaeth i ben; dyna darged wedi ei methu. Pris methiant fydd tirwedd sy'n fwyfwy tlawd, anallu i ymateb i anghenion byd natur gyda mwy a mwy o fywyd gwyllt yn cael ei niweidio gan newid hinsawdd, a phwysau ein hanghenion ein hunain. Byddwn oll yn dlotach o ganlyniad y golled honno a bydd yn golygu trosglwyddo tirweddau gyda llai o fioamrywiaeth i'r cenedlaethau a ddaw yn ogystal â byd natur sy'n cael ei gyfyngu o fewn terfynau gwarchodfeydd natur.

Mae Tirwedd y Dyfodol yn weledigaeth yr hoffem ei rhannu a'i gwireddu ym mhob cornel o'r DU. Ni fydd pob dim yn digwydd ar unwaith. Dyma gychwyn cariad o'r newydd tuag at ein tirweddau gwerthfawr – cariad o'r newydd tuag at fywyd.

Dr Mike Clarke
Prif Weithredwr yr RSPB

TIRWEDD Y DYFODOL YN GRYNO

Mae rhaglen Tirwedd y Dyfodol yr RSPB yn gweithio dros gefn gwlad lewyrchus sy'n hoff gan bawb.

BRAS YR EIRA

DULL NEWYDD O WEITHREDU

Tirwedd y Dyfodol yw cyfraniad yr RSPB tuag at gadwraeth ar raddfa'r dirwedd. Dyma symudiad sy'n tyfu ymysg grwpiau cadwraeth y DU i ddarparu cynefinoedd cyfoethog ar gyfer bywyd gwyllt a mannau gwyrdd amrywiol i bobl eu mwynhau yng nghefn gwlad, nid yn unig mewn mannau gwarchodedig ond ymhell y tu hwnt iddynt. Ymdrech gan bartneriaeth yw Tirwedd y Dyfodol sy'n cynnwys yr RSPB, cyd-sefydliadau amgylcheddol, cymunedau lleol, busnesau a chyrff llywodraethol sydd am ddatblygu gweledigaeth ar gyfer cefn gwlad lawn o fywyd gwyllt mewn mannau detholedig, wrth gydweithio i wireddu hyn.

YR HER I FYWYD GWYLLT MEWN CEFN GWLAD SY'N NEWID

Oherwydd degawdau o golli cynefin, mae'r rhywogaethau bregus sydd o dan y bygythiad mwyaf yn y DU wedi eu casglu ynghyd yn rhai o'r darnau cyfoethog olaf o gynefin, yn bennaf mewn mannau gwarchodedig. Mae llawer o rywogaethau sy'n fwy eang eu dosbarthiad wedi prinhau'n drawiadol, wrth i'r cefn gwlad ehangach bellach ddarparu llai o'u hanghenion o ran bwyd a lloches. Nid ydym eto wedi llwyddo i ddod â cholledion mewn bioamrywiaeth i ben a bydd mwy o heriau eto i fywyd gwyllt yn yr 21ain ganrif. Hyd yn oed wrth weithredu ar frys i fynd i'r afael â gollyngiadau o nwyon tŷ gwydr, bydd yr hinsawdd yn newid yn sylweddol erbyn diwedd y ganrif: mae effeithiau newid hinsawdd yn amlwg eisoes yn y byd naturiol a byddant yn cynyddu.

GWEITHREDU AR RADDFA'R DIRWEDD

Mae'n amlwg nad yw'r ymdrech gadwraethol bresennol yn ddigon. Mae rhywogaethau'n prinhau ac yn cael eu colli, a bydd angen hyd yn oed mwy o warchodaeth ar fywyd gwyllt os yw'n mynd i addasu i newid hinsawdd. Rhaid i ni neilltuo mwy o le i fywyd gwyllt. Mae ein cefn gwlad eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ystod o weithgareddau pwysig, yn cynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, hamdden, tai a rheolaeth dŵr. Er ein bod yn gallu gwneud cynefinoedd bywyd gwyllt allweddol yn fwy ac yn fwy gwydn, a bydd raid i ni wneud hyn, mae angen dod o hyd i lawer o'r lle ychwanegol ar gyfer bywyd gwyllt drwy ddod o hyd i ddulliau o ateb anghenion bywyd gwyllt ochr yn ochr â'r defnydd arall o gefn gwlad. Bydd rhaid i ni ddysgu sut i wneud yn fawr o'n tir ar gyfer amcanion lluosog. Weithiau bydd hynny'n golygu newid defnydd presennol y tir. Nid bywyd gwyllt yn unig fydd yn elwa. Drwy weithredu ar raddfa'r dirwedd dros fywyd gwyllt, gallwn wella gwasanaethau naturiol eraill a ddarperir gan y tir. Yn dibynnu ar y safle, gall y rhain gynnwys storio carbon, rheolaeth dŵr a gwerth o ran hamdden, ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd a buddion economaidd pwysig eraill.

TIRWEDD Y DYFODOL

Tirwedd y Dyfodol yw rhaglen fwyaf hyderus ac uchelgeisiol yr RSPB hyd yn hyn. Ei nod yw mynd i'r afael â'r heriau i fywyd gwyllt a chymdeithas drwy gyfrwng y dulliau pwysig canlynol:

- Creu partneriaethau ymysg yr RSPB a grwpiau amgylcheddol eraill, cymunedau lleol, y sector preifat ac awdurdodau perthnasol y llywodraeth i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd o gefn gwlad sy'n briodol i bobl a bywyd gwyllt, nawr ac yn y dyfodol – a chydweithio i'w ddarparu.
- Creu mwy o le i fyd natur, drwy gynyddu maint yr ardaloedd a reolir yn bennaf ar gyfer cadwraeth natur. Sicrhau bod cefn gwlad yn le gwell i fywyd gwyllt addasu i newid hinsawdd, drwy wneud cynefinoedd bywyd gwyllt yn fwy abl i wrthsefyll newid hinsawdd a thrwy reoli tir mewn ffyrdd sy'n helpu rhywogaethau i symud mewn ymateb i newid hinsawdd.
- Rhoi cadwraeth natur wrth wraidd ymatebion dynol i bwysau o'r newydd ar gefn gwlad, megis cynhyrchu bioynni a datblygu isadeiledd newydd.

Mae gan yr RSPB bron i 40 o fentrau Tirwedd y Dyfodol ar waith eisoes o amgylch y DU – o'r Flow Country yng ngogledd pell Yr Alban i rostiroedd Gogledd Cymru. Yn y mannau hyn, rydym yn cydweithio ag eraill i integreiddio gofal amgylcheddol cadarn gyda rheolaeth cefn gwlad a chynllunio ar gyfer heriau'r dyfodol. Rydym yn bwriadu ymestyn ein rhaglen Tirwedd y Dyfodol i dros 80 ardal.

GWEITHREDU NAWR GAN Y LLYWODRAETH

Mae'r RSPB yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- gydnabod pwysigrwydd y dull o weithredu ar raddfa'r dirwedd dros gadwraeth natur er mwyn datblygu a chyfannu gwaith ar ardaloedd gwarchodedig a chadwraeth rhywogaethau a dargedir. I gymryd arweiniad deallol er mwyn bwrw ymlaen â'r dull hwn, ar lefel y DU ac yn y cenhedloedd datganoledig sicrhau bod fframweithiau polisi a chynllunio priodol yn bodoli i hyrwyddo cadwraeth ar raddfa'r dirwedd gyflwyno mecanweithiau mentrus ar gyfer ariannu cadwraeth ar raddfa'r dirwedd, gwneud i fecanweithiau ariannu presennol weithio'n galetach dros fywyd gwyllt a sicrhau nad yw gwariant cyhoeddus yn cael effeithiau negyddol ar yr adnoddau naturiol sydd yn bodoli drefnu cynlluniau peilot eu hunain ar fentrau ar raddfa'r dirwedd a rhannu profiadau gydag eraill.

Y PETHAU SYLFAENOL

Gêm tymor hir ywcadwraeth natur, ac mae'n angenrheidiol cadw llygad ar y dyfodol bob amser wrth i ni geisio rhagweld bygythiadau a sicrhau mai canlyniad ein gwaith fydd etifeddiaeth barhaol. Gwnawn hyn oherwydd ein bod yn caru byd natur ac yn ymwybodol o'i werth i gymdeithas nawr ac yn y dyfodol.

CORNCHWIGLEN

Mae ein bywyd gwyllt o dan fygythiad difrifol. Bellach mae rhywogaethau'n diflannu o'r tir ar raddfa o ddwy bob blwyddyn, gyda bron i 500 wedi diflannu o'r DU yn y ddwy ganrif ddiwethaf[1]. Mae hyd yn oed rhywogaethau a oedd ar un adeg yn hynod o niferus mewn perygl, fel y llyffant dafadennog a'r llyffant melyn. Dim ond mewn mannau lle targedwyd ymdrechion cadwraethol ac ailgyflwyno ar rywogaethau mewn perygl y maent wedi ffynnu. Nid ydym wedi llwyddo i ddod â cholledion o ran bioamrywiaeth i ben, ac mae bygythiad hinsawdd sy'n newid, a phwysau cynyddol ar dir, yn enfawr. Nid yw busnes fel arfer yn opsiwn.

Rhaid i ni droi hyn yn gyfle. Gyda threigl amser, oherwydd colli a darnio cynefin, yr hyn sydd gennym erbyn hyn yw ynysoedd o fyd natur a amgylchynir gan dirwedd nad yw fawr o werth i fywyd gwyllt arbenigol. Wrth i fioamrywiaeth barhau i grebachu, mae'r sefyllfa'n gwaethygu, ac mae poblogaethau sydd ar ôl o rywogaethau oedd unwaith yn gyffredin wedi eu hamgylchynu gan dir diwerth. Rhaid gwireddu cadwraeth natur ar raddfa llawer mwy ac mewn ffordd fwy llwyddiannus ochr yn ochr â defnydd arall o dir yn y tirweddau ehangach os ydym am ddychwelyd i gyfnod o fywyd gwyllt sy'n cynyddu neu sydd hyd yn oed yn sefydlog. Rhaid i ni ddarparu lle i fyd natur ffynnu ac addasu i hinsawdd sy'n newid.

Mae Tirwedd y Dyfodol, rhaglen o waith cadwraeth yr RSPB ar raddfa'r dirwedd, yn rhan bwysig o'n hymateb i'r heriau hyn. Dull newydd o roi cadwraeth natur ar waith yw'r rhaglen hon, ar raddfa fwy ac mewn ffordd fwy uchelgeisiol ac integredig nag erioed o'r blaen. Hefyd, mae'n wahoddiad i gyrff ac unigolion eraill ymuno â ni wrth i ni greu, adfer a gwella cynefinoedd ledled y DU gyda'n gilydd. Mae'r rhaglen yn golygu gwir welliannau ar y ddaear, gan wneud gwir wahaniaeth i'r amgylchedd naturiol.

PAM FOD ARNOM ANGEN DULL O WEITHREDU AR LEFEL Y DIRWEDD

Nid yw'r dull o weithredu ar raddfa'r dirwedd yn newydd i'r RSPB. Ers cryn amser rydym wedi bod yn eiriol dros waith cynefin ar raddfa fawr, ac wedi bod yn rhoi'r syniadau yma ar waith ar warchodfeydd pwysig yn cynnwys Abernethy, Forsinard Flows, Minsmere a Llyn Efyrnwy yn ogystal â'r ardaloedd o'u cwmpas. Yn 2001, amlinellwyd ein hachos dros gadwraeth ar raddfa'r dirwedd yn *Tirwedd y Dyfodol: adfer cynefin ar raddfa fawr dros fywyd gwyllt a phobl*. Mae'n amlwg bellach bod arnom angen meddwl hyd yn oed yn ehangach na'r hyn a ragwelwyd dim ond degawd yn ôl, os ydym am droi'r llanw ar golli bioamrywiaeth.

Mae arnom angen dysgu gwersi newydd, yn cynnwys sut i weithredu cadwraeth natur arbenigol ledled tirweddau ehangach, a sut i ddarparu mwy o le i fyd natur ffynnu ac addasu i newid hinsawdd. Mae ein dewisiadau o ran lleoliadau Tirwedd y Dyfodol yn seiliedig ar ein profiad hir ledled y DU fel cadwraethwyr a rheolwyr tir, ac maent wedi eu canolbwyntio yn yr ardaloedd hynny lle y credwn fod modd i ni, gyda'n partneriaid, wneud y cyfraniad mwyaf tuag at gadwraeth natur.

Mae'r cynnydd yn y raddfa'n sylweddol. Mae arwynebedd o bron i 1 miliwn hectar (ha) ar oddeutu 50 o'n Tirweddau i'r Dyfodol o'i gymharu â'n daliadau presennol ar warchodfeydd o 150,000 ha. Bydd y rhaglen Tirwedd y Dyfodol yn gweithio y tu hwnt i safleoedd o'r fath mewn partneriaeth â chyrff a thirfeddianwyr eraill. Mae ystod y partneriaethau hyn eisoes yn drawiadol ledled y DU, a byddwn yn parhau i chwilio am y sawl sy'n dymuno cyfuno medrau, adnoddau a gwybodaeth er mwyn datblygu gwell dyfodol.

Dylai methiant Llywodraethau cyfunol i ddod â cholledion mewn bioamrywiaeth i ben erbyn 2010 fod yn alwad am weithredu ar frys ledled y DU. Ni fydd gwneud yn iawn am y methiant yn orchwyl hawdd ac mae'n dibynnu ar wir arweiniad gwleidyddol. I wireddu cadwraeth ar raddfa'r dirwedd, mae angen cefnogaeth lywodraethol ar y cyd. Mae'r her i lywodraethau'r DU, cyrff anllywodraethol a sefydliadau eraill yn glir: rhaid i ni gydweithio, gyda chefnogaeth polisïau ac ariannu digonol, i greu cefn gwlad sy'n briodol i fywyd gwyllt a phobl, nawr ac yn y dyfodol.

CADWRAETH NATUR YN YR 21AIN GANRIF

Yn y DU mae systemau gwerthfawr eisoes ar waith i warchod natur – yn cynnwys gwarchodaeth gyfreithlon o safleoedd bywyd gwyllt pwysig, y dyletswyddau statudol ar ein hasiantaethau cadwraeth natur i warchod rhywogaethau a sicrhau bod cynefinoedd mewn cyflwr ffafriol, cynlluniau amaeth-amgylcheddol i wella cynefin ar dir sy'n cael ei ffermio, a'r ystod o ymdrechion y telir amdanynt gydag arian preifat ac a arweinir gan gyrff cadwraeth, i gynorthwyo rhywogaethau o dan fygythiad i hawlio eu lle unwaith eto mewn amgylchedd a niweidiwyd.

Os atgyfnerthir yr holl gydrannau yma o gadwraeth natur, gallent ddarparu sail gadarn ar gyfer y dull o weithredu cadwraeth ar raddfa'r dirwedd.

Nid oes amser i'w wastraffu, chwaith. Mae cymaint o bwysau ar gefn gwlad y DU fel bod rhaid datblygu dull o weithredu cadwraeth ar raddfa'r dirwedd law yn llaw gyda chryfhau'r conglfeini hanfodol hyn: gwarchod, ehangu ac ailgysylltu safleoedd, adfer rhywogaethau mewn perygl a gwella'r amgylchedd a amaethir. Ni fyddwn yn llwyddo i gynhyrchu cefn gwlad sy'n addas ar gyfer bywyd gwyllt yn yr 21ain ganrif nes byddwn yn cyflawni hyn.

CADWRAETH RHYWOGAETHAU

Cynnyrch y dull o'i rheoli dros gyfnod maith iawn yw tirwedd y DU. Dros y canrifoedd diweddar, ac yn enwedig yn ystod yr 20fed ganrif, mae ein harwynebeddau o gynefin lled-naturiol a fu unwaith yn enfawr, y mae cymaint o'n hoff rywogaethau'n dibynnu arnynt, wedi dioddef colledion sylweddol. Yr hyn sydd ar ôl heddiw yw darnau bach iawn, sydd hefyd yn ddarniog, o'r tir hwnnw fu unwaith yn eang; yn gryno, ynysoedd bach o gynefin. Nid yw'n syndod felly bod rhywogaethau sy'n dibynnu ar y cynefinoedd hyn yn brwydro i gynnal poblogaethau hyfyw. Cafwyd effaith hynod o bositif wrth weithredu'n benodol ar boblogaethau rhywogaethau â blaenoriaeth arbennig o leol fel aderyn y bwn, rhedwr y moelydd, bras Ffrainc a'r barcud. Yn wir, mae Cymru'n gartref i dros 800 pâr o farcutiaid sy'n nythu sef oddeutu 50% o boblogaeth y DU. Fodd bynnag, nid ydym eto wedi llwyddo i fynd i'r afael â phrinhad rhywogaethau sydd wedi eu gwasgaru ar hyd a lled ein cefn gwlad ehangach. O ganlyniad cafwyd cynnydd yn y nifer o rywogaethau ar y rhestr goch o ran pryder cadwraethol ledled y DU. Mewn tirlun a reolir, bydd angen gwaith adfer parhaol ar rywogaethau a dargedir i wireddu amcanion cadwraethol.

ARDALOEDD DAN WARCHODAETH

Mae conglfeini cadwraeth natur wedi eu casglu ynghyd yn raddol dros y 30 mlynedd diwethaf, ac mae'r RSPB wedi bod yn ymwneud â llawer ohonynt. Fe all system ardaloedd dan warchodaeth y DU fod yn effeithiol; fodd bynnag, mae bygythiadau'n parhau ac mae'r rhwydwaith hon o'n safleoedd bywyd gwyllt gorau'n parhau heb ei chwblhau, er ei bod yn rhan hanfodol o'r dull o adfer rhywogaethau. Sefydlwyd y rhwydwaith o ardaloedd dan warchodaeth mewn cyfnod pan oedd y cefn gwlad ehangach mewn cyflwr llawer mwy cyfoethog ac roedd y rhain yn safleoedd cymhwysol yn hytrach na samplau cynrychioladol o nodwedd ddynodi. Yn y cyfamser mae'r safleoedd hyn wedi dod yn fwy ynysig ac er bod llawer ohonynt erbyn hyn yn cael cymorth i adfer eu hunain, bydd angen mwy o waith cyn iddynt fod yn y cyflwr ffafriol angenrheidiol. Mae arnom angen felly ehangu a gwella'r rhwydwaith o ardaloedd dan warchodaeth a'i gwarchod yn effeithiol.

MYNYDDOEDD Y BERWYN

RÔL ARDALOEDD GWARCHODEDIG

Mae ardaloedd gwarchodedig y DU yn gonglfaen gwireddu cadwraeth natur. Yn ogystal â safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol, mae ein Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) yn cynnwys rhwydwaith safleoedd Ewropeaidd pwysicaf y DU. Safleoedd Natura 2000 yw'r rhain, sy'n cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Adar ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Mae gwaith diweddar fu'n edrych ar dueddiadau poblogaeth pob aderyn gwyllt ers 1970 wedi dangos mor bwysig fu'r Gyfarwyddeb Adar iddynt, yn enwedig y rhai a restrwyd ar Atodiad 1 (y rhywogaethau sydd fwyaf mewn perygl a mwyaf pwysig yr Undeb Ewropeaidd)[1]. Mae graddfa adfer rhywogaethau Atodiad 1 wedi bod yn sylweddol fwy o fewn yr UE na'r tu allan, ac o fewn yr UE wedi bod yn fwy o ran rhywogaethau Atodiad 1 na'r rhai na restrwyd[2].

Mae rôl ardaloedd gwarchodedig yn yr adferiad hwn yn hanfodol bwysig. Po fwyaf yw arwynebedd yr AGA, y mwyaf fydd yr adferiad, yn enwedig i'r rhywogaethau prin a bregus ar Atodiad 1. Cafwyd tystiolaeth i gefnogi hyn gan fod tueddiadau mwy positif yn y gwledydd hynny a oedd wedi dynodi arwynebeddau mwy o AGA.

Wrth i'n hinsawdd barhau i newid, bydd ardaloedd gwarchodedig yn chwarae rhan bwysicach mewn sicrhau dyfodol i fywyd gwyllt. Daw bioamrywiaeth yfory o fioamrywiaeth heddiw, felly mae rôl ardaloedd gwarchodedig mewn gwella statws cadwraeth rhywogaethau yn gam cyntaf hanfodol tuag at wella'r gallu i addasu. Yn ogystal â gwarchod y rhywogaethau sy'n byw o fewn eu terfynau, mae safleoedd dynodedig hefyd yn gwarchod yr amodau amgylcheddol sylfaenol neu swyddogaeth y safle.

Nid yw gweithgareddau dyn wedi aflonyddu fawr ddim ar lawer o'n hardaloedd gwarchodedig, ac maent yn cynnwys amodau amgylcheddol allweddol megis pridd nad oes ynddo lawer o faetholion, ansawdd dŵr da, a daeareg a thopograffi sydd bellach yn brin yn y dirwedd ehangach. Amodau fel rhain yw sail cymunedau ecolegol amrywiol. Byddant yn parhau i gynnal ecoleg amrywiol, wrth i'r rhywogaethau sy'n llunio'r cymunedau hynny newid dros gyfnod o amser.

Am y rhesymau hyn, bydd y rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig yn ganolog i ddull Tirwedd y Dyfodol o weithredu. Er mai ardaloedd gwarchodedig fydd wrth wraidd pob mentr Tirwedd y Dyfodol, ni fydd gweld y cyfle i gefnogi bywyd gwyllt dros dirwedd ehangach yn awgrymu nac yn arwyddo haen newydd o ddynodiad.

DEDDFWRIAETH AMGYLCHEDDOL

Mynegir gwerth cynhenid bywyd gwyllt, a dyletswydd foesol cymdeithas i'w warchod, drwy gyfrwng y cyfreithiau amgylcheddol a basiwyd ar lefel yr UE a'r lefel genedlaethol dros y 30 mlynedd diwethaf. Mae'r Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yn Ewrop, a'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, Deddfau Hawliau Tramwy a NERC o dan Lywodraethau olynol y DU, i gyd wedi sefydlu amddiffyniadau gwarchodol sy'n cyfyngu ar y raddfa y caniateir i weithgareddau dyn effeithio ar yr amgylchedd naturiol, ac wedi dynodi cyfrifoldebau ar gyfer ei warchod a'i adfer. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi gwneud cyfraniad enfawr at yr agenda gadwraeth ac mae'n gyfrifol am lawer o'r hyn sy'n hoff gennym heddiw.

Fodd bynnag, mae meysydd yn dal ar ôl lle gellid gwneud defnydd mwy positif o'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli i wireddu'r newidiadau y mae eu hangen ar ein cefn gwlad, ee creu ac adfer cynefinoedd y tu allan i'n rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig er mwyn cefnogi adferiad rhywogaethau. Mae arnom angen datblygu a chynnal y llwyddiant hwn tra ar yr un pryd sicrhau bod cyfarwyddebau cenedlaethol a mwy newydd yn cael eu rhoi ar waith (ee Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) ac integreiddio cadwraeth natur gyda'r holl reoliadau sy'n rheoli defnydd tir. Bydd gwireddu integreiddio mor ofalus â hyn yn cynorthwyo gydag osgoi gwrthdaro, oedi a chostau cynyddol drwy sicrhau bod pryderon parthed cadwraeth natur yn cael eu hystyried yn ystod cyfnod cynharaf cynllunio newid mewn defnydd tir.

CADWRAETH YN Y CEFN GWLAD EHANGACH

Mae'r Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) yn darparu nawdd a all wireddu canlyniadau amgylcheddol yn y cefn gwlad ehangach. Ymysg y buddion yma mae'r rhai a wireddir drwy gyfrwng cynlluniau amaeth-amgylcheddol, megis mwy o gynefin ar gyfer adar ffermdir, a gwarchod adnoddau. Fodd bynnag, nid yw'r nawdd sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau hyn ar hyn o bryd yn ddigonol, ac mae'r mwyafrif o'r arian yn cael ei drosglwyddo fel taliadau uniongyrchol i ffermwyr, gydag ychydig o fudd i'r cyhoedd. Yn fframwaith presennol y PAC, gellid sicrhau'r cynnydd angenrheidiol yn yr ariannu ar gyfer y buddion cyhoeddus drwy drosglwyddo adnoddau sylweddol tuag at gynlluniau o'r fath.

Ar yr un pryd, rhaid i gynlluniau amaeth-amgylcheddol ddangos eu bod yn darparu gwir welliannau amgylcheddol. Ar hyn o bryd mae llawer yn cael eu barnu'n ôl y nifer sy'n cymryd rhan ynddynt, neu sawl hectar sydd o fewn y cynllun. Rhaid eu barnu o safbwynt amcanion clir megis adfer rhywogaethau a chynefin. Mae cynllunio'r cynllun yn dda a'r gallu i ddarparu cyngor ymarferol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod buddion i'r cyhoedd yn cael eu sicrhau. Mae RSPB Cymru wedi cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac wedi cynorthwyo gyda chynllunio'r cynllun amaeth-amgylcheddol newydd, Glastir, sy'n nodi newid pwysig yn system cymorthdaliadau amaethyddol yng Nghymru. O dan Glastir, telir ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n gwireddu amcanion amgylcheddol, yn cynnwys gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd. Mae gan Glastir botensial enfawr i fod yn arf bwerus dros gadwraeth a phan gaiff ei lansio yn 2012 gobeithiwn y bydd yn fodel o ymarfer da ledled Ewrop.

Er mwyn i'r dull o weithredu cadwraeth ar raddfa'r dirwedd ddarparu'r gwir fuddion a ragwelir, mae angen gwella cynlluniau presennol o ran ariannu, cynllun, darpariaeth a chydlynu. Mae gwella'r ddarpariaeth, a hynny'n gyflym, yn angenrheidiol wrth i ni edrych tua'r dyfodol a'r ansicrwydd a ddaw o ganlyniad newid hinsawdd.

PATHEW

HER YR HINSAWDD

Un o'r heriau mwyaf o ran rheoli tirwedd y DU yn y dyfodol yw newid hinsawdd.

Mae newid hinsawdd yn fygythiad tymor hir enfawr i fywyd gwyllt. Am bob gradd ganradd y bydd tymheredd y ddaear yn cynhesu ar gyfartaledd, rhagwelir y bydd 10% o rywogaethau eto mewn mwy o berygl o ddiflannu o'r ddaear.[3]

Er bod y tymheredd ledled y byd wedi codi o 0.8 gradd ganradd ers y cyfnod cyn-ddiwydiannol, mae cynhesu wedi digwydd ymhellach ac yn gynt mewn rhai rhannau o'r ddaear, yn cynnwys Ynysoedd Prydain. Mae tymheredd wyneb y môr ym moroedd y DU wedi codi o oddeutu 0.7 gradd ers 1980[4]. Er nad yw hynny'n ymddangos yn llawer o newid, mae'r effeithiau ar fywyd gwyllt eisoes yn sylweddol.

Mae gwanwynau cynhesach a hafau poethach yn golygu na all rhai rhywogaethau bellach gydamseru eu gweithrediadau beunyddiol gyda'u hysglyfaeth. Er enghraifft, ar rostiroedd yr ucheldir, mae tywydd mwynach y gwanwyn wedi annog y cwtiad aur i nythu'n gynt nag yr oedd ddau ddegawd yn ôl. Fodd bynnag, nid oes bellach ddigon o fwyd i'w gywion ei fwyta oherwydd nid yw cyfnod deor y pryfed cannwyll, prif gynnwys eu diet, wedi newid. Yn y cyfamser, mae hafau poethach yn sychu wyau'r pryfed cannwyll, gan arwain at boblogaethau llai o bryfed cannwyll y flwyddyn ganlynol.

Wrth gynhesu mae moroedd yn amharu ar y gadwyn fwyd morol. Wrth i amlder a dosbarthiad plancton dŵr oer newid mae'r nifer o lymrïaid, sy'n dibynnu ar y plancton, yn gostwng. Yn Yr Alban a Lloegr, mae adar môr ar frig y gadwyn fwyd, fel y pâl a'r wylan goesddu, yn dioddef colledion nythu enfawr oherwydd y diffyg bwyd maethlon sef llymrïaid. Fe all hyn ddigwydd hefyd yng Nghymru'n fuan iawn.

Ar ein glannau, mae lefel y môr wedi codi 10 centimetr yn y ganrif ddiwethaf[5], yn bennaf oherwydd bod y moroedd yn ehangu wrth gynhesu. Mae codiad yn lefel y môr yn lleihau'r arwynebedd o gynefin morfa heli ar ein harfordir – mannau bwydo a nythu ffrwythlon ein hadar rhydiol – ac, mewn rhai achosion, yn bygwth aneddiadau dyn.

Mae arnom angen gweithio'n ddygn i addasu i newidiadau sydd eisoes yn digwydd yn yr hinsawdd ac sy'n gosod her i gadwraeth natur a lles pobl. Eisoes mae'r RSPB wedi rhoi sawl project ar y gweill, gydag eraill, i gynorthwyo bywyd gwyllt i addasu. Er enghraifft, rydym yn llenwi draeniau mawnogydd ar yr ucheldir i gynorthwyo gyda chadw'r dŵr yn y pridd dros fisoedd yr haf, ac rydym yn creu cynefinoedd morfa heli newydd ar y glannau drwy gynlluniau adlinio sy'n cael eu rheoli. Ond hyd yn oed gyda mentrau cadwraeth o'r fath ar y gweill, mae mwy o effeithiau negyddol i ddod i'r amgylchedd naturiol o ganlyniad newid hinsawdd. Mae angen gweithredu hyd yn oed yn fwy pendant.

Hyd yn oed os bydd cymdeithas heddiw'n sicrhau ewyllys wleidyddol gref i gyfyngu ar newid hinsawdd, mae cynhesu pellach yn anochel yn y ganrif hon. O ganlyniad i ollyngiadau o nwyon tŷ gwydr yn ein hanes diweddar, mae graddfa benodol o gynhesu eisoes yn rhan o systemau'r ddaear. Wrth i ni edrych tuag at ddiwedd y ganrif hon, mae ein hinsawdd yn y dyfodol yn hynod o ansicr a'r effeithiau yn lleol yn fwy fyth. Ar lefel fyd-eang, mae rhagolygon yn amrywio o godiad pellach o 1.4 gradd ganradd ar gyfartaledd yn y tymheredd i 4 gradd neu fwy.

Mae ansicrwydd am natur a graddfa newid hinsawdd yn y dyfodol yn ei gwneud yn anodd rhagweld yr effeithiau ar fywyd gwyllt, ond mae astudiaethau presennol yn awgrymu tueddiadau dychrynllyd. Newidiadau mewn dosbarthiad rhywogaethau sydd wedi eu hastudio fwyaf, fel y rhai a drafodir yn y *Climatic Atlas of European Breeding Birds*. Yn seiliedig ar senario o ollyngiadau ystod ganol, mae'r awduron yn dod i'r casgliad y bydd amodau hinsoddol priodol ar gyfer rhywogaethau o adar ar gyfartaledd yn newid bron i 550 cilometr i'r gogledd-ddwyrain erbyn diwedd y ganrif hon, y byddant yn lleihau mewn maint o bumed ran ac yn gorgyffwrdd â'u cynefin presennol o 40% yn unig. Mae prinhad hanesyddol rhywogaethau, ynghyd â chyflymder y newidiadau hyn a thirwedd gyda chymharol ychydig o gynefin lled-naturiol, yn golygu na fydd lawer o rywogaethau'n gallu addasu mewn pryd heb ein cymorth ni.

TELOR DARTFORD

Ni all aderyn oroesi yn unman os nad yw'r hinsawdd yn iawn iddo, ond hyd yn oed lle gall rhywogaeth elwa o hinsawdd sy'n newid ym Mhrydain, mae hyn yn dibynnu'n llwyr ar eu gallu i ddod o hyd i gynefin priodol mewn cefn gwlad iach. Mae telorion Dartford prysur ac ystwyth yn gwibio ymysg llwyni eithin a grug, weithiau'n canu o frigyn uchel, cyn plymio i lwyn trwchus yr eiliad nesaf. Adar rhostir isel Prydain yw'r rhain, mannau fel Arne yn Dorset lle mae gan yr RSPB ddegawdau o brofiad o reoli'r rhostir sensitif.

I oroesi mae angen y cynefinoedd arbennig yma ar delorion Dartford. Yn Sbaen a Phortiwgal mae telorion Dartford yn prinhau'n barod – yn union fel mae'r *Climatic Atlas* yn ei ddarogan. Dylai haf cynhesach a gaeaf mwynach ym Mhrydain annog telorion Dartford i symud yma, ond os bydd am ffynnu rhaid i ni gynnig cymorth. Efallai y daw'r cynefin yn ffafriol ymhellach i'r gogledd ond a fydd cynefin priodol ar gael? Fe all telor Dartford symud tua'r gogledd, ond ni all fyw mewn cae ŷd.

Ar ein gwarchodfa natur yn y Lodge yn Swydd Bedford, rydym yn dychwelyd planhigfa goniffer dywyll yn rhostir, wrth dorri coed a phlannu grug ac eithin dros fwy na chilometr sgwâr. Byddwn yn creu'r rhostir mwyaf yn Swydd Bedford – llain sy'n croesawu telorion Dartford i aros wrth iddynt ehangu tua'r gogledd. Dyma un enghraifft yn unig o aderyn y gallwn ei gefnogi mewn hinsawdd sy'n newid drwy sicrhau bod y cynefin priodol yno ar ei gyfer.

PWYSAU O'R NEWYDD AR EIN CEFN GWLAD

Daw pwysau o du heriau newydd ar ein cymdeithas yn y degawdau i ddod a byddwn ni, yn ein tro, yn rhoi mwy o bwysau ar yr amgylchedd naturiol i ateb ein hanghenion fel pobl. Bydd newidiadau demograffig yn golygu gofynion cynyddol o ran bwyd, cartrefi, trafnidiaeth a'r defnydd o dir ar gyfer hamdden. Fel yr amlinellwyd gan adroddiad 2010 y Foresight Group: *Future Land Use, Making the Most of Land in the 21st Century*[6], bydd cynnydd yn y nifer o dai yn y DU wrth i bobl fyw'n hirach, wrth i ymfudwyr gyfrannu at ein heconomi sy'n tyfu, wrth i fwy o blant gael eu geni a nifer cynyddol o bobl fyw mewn tai ar gyfer un unigolyn. Teimlir y pwysau i wahanol raddau ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU, ond ymhob man, mae'r tueddiad i'r un cyfeiriad.

Ymysg yr heriau hyn, mae gan ddadleuon ynglŷn â sicrwydd bwyd botensial i fod yn arbennig o benboeth. Bydd poblogaeth sy'n tyfu, yn ogystal â mwy o incwm a defnydd cynyddol gan bob un ohonom, yn golygu mwy o ofyn am fwyd yn y DU, ac wrth i ofynion defnyddwyr newid fe all hyn ddylanwadu ar y math o fwyd yr hoffem ei brynu. Efallai y bydd llywodraethau'r dyfodol yn gadael i fympwy'r farchnad am fwyd a chnydau eraill reoli dewisiadau ffermwyr o ran pa gnydau i'w tyfu, neu efallai y byddant yn cyflwyno mesurau polisi i sicrhau manteision i un cnwd dros un arall, yn union fel y mae mentrau polisi presennol ac ariannu gan y Llywodraeth yn Yr Alban yn golygu coedwigo arwynebeddau enfawr o'r tirlun.

O ran polisi bwyd ac amaethyddiaeth fwy cyffredinol, a pholisïau parthed coedwigaeth, tai, cludiant, isadeiledd a sectorau eraill o'r economi, mae'n hanfodol fod polisïau'r dyfodol yn ystyried anghenion bywyd gwyllt mewn cefn gwlad dan bwysau. Efallai y bydd y polisïau perthnasol ar lefel y DU neu'n ddatganoledig, neu efallai y byddant yn berthnasol i benderfyniadau allweddol a wneir ar lefel y DU, fel y Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) arfaethedig yn 2014.

Bydd polisïau lliniaru'r Llywodraeth yn erbyn newid hinsawdd hefyd yn cael effeithiau dwys ar ein dulliau o ddefnyddio a rheoli ein tir. Fe all y gweithrediadau a roir ar waith gennym effeithio'n ddramatig ar fywyd gwyllt. Wrth wraidd polisi lliniaru newid hinsawdd y DU mae ei ymrwymiadau i gwtogi gollyngiadau o nwyon tŷ gwydr o 80% o leiaf erbyn 2050, a gynhwysir yn Neddf Newid Hinsawdd y DU (2008) ac yn y Ddeddf Newid Hinsawdd (Yr Alban) 2009. Bu'r RSPB yn ymgyrchu'n ddygn am y targedau hyn ac rydym yn parhau i bwyso am gwtogi gollyngiadau yn y tymor canolog o 42% yn y DU erbyn 2020 (mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi arwyddo i leihad o 40% mewn nwyon tŷ gwydr Cymru erbyn 2020). Ond rydym yn dadlau bod rhaid llunio'r polisïau i wireddu'r toriadau yma mewn gollyngiadau mewn ffordd a fydd yn parchu ein safleoedd bywyd gwyllt pwysicaf ac yn darparu cynefin yn y cefn gwlad ehangach.

Cynhyrchu porthiant ar gyfer bioynni, lleihau'r gollyngiadau a gysylltir ag amaethyddiaeth, datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy, adeiladu isadeiledd trafnidiaeth carbon-isel – mae'r rhain i gyd yn fesurau angenrheidiol y mae'n rhaid eu cydbwyso'n ofalus gydag anghenion bywyd gwyllt a'r byd naturiol heddiw. Heb fesurau gweithredol i warchod rhywogaethau a chynefinoedd pwysig a darparu rheolaeth tir ystyriol, fe all ymateb tirfeddianwyr i'r argyfwng hinsawdd gael effaith negyddol fwy ar fywyd gwyllt a hynny'n ddamweiniol nag sydd gan newid hinsawdd yn uniongyrchol.

Er enghraifft, heb benderfyniadau polisi gofalus ac ariannu digonol, fe all y symudiad tuag at gynyddu cnydau bioynni i gefnogi lliniaru newid hinsawdd arwain at orchuddio arwynebeddau enfawr o'r dirwedd gyda phlanhigfeydd ungnwd heb fawr o werth i fywyd gwyllt – lle mae potensial, yn hytrach, i ddatblygu llawer o nodweddion cynefin mewn tirwedd gynhyrchiol. Dengys astudiaethau'r RSPB sut rydym wedi gweithio gyda datblygwyr i gynhyrchu projectau ynni adnewyddadwy a systemau cnydio gyda nodweddion penodol i greu a gwella cynefin bywyd gwyllt. Mewn geiriau eraill, rydym wedi casglu cryn dipyn o dystiolaeth i arddangos sut all ein cymdeithas liniaru yn erbyn newid hinsawdd wrth warchod y byd naturiol.

TYLLUAN WEN

CYNORTHWYO NATUR I'N HELPU NI

Wrth i ni feddwl am ddulliau o reoli ein dinasoedd, trefi, cefn gwlad ac arfordir ac ystyried effeithiau newid hinsawdd arnynt, mae cyfleoedd lu i ddatblygu atebion sydd o fudd i bobl a bywyd gwyllt. Mae addasu i newid hinsawdd mewn ffyrdd sy'n gwella sicrwydd economaidd pobl a hamdden, ac sy'n gwella cynefinoedd bywyd gwyllt yr un pryd, wrth wraidd dull yr RSPB o weithredu. Ymysg enghreifftiau o fesurau sy'n cynorthwyo natur i'n helpu ni mae cynlluniau adlinio wedi eu rheoli ar ein glannau, projectau cadwraeth ar yr ucheldir a gwell cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Mae cynlluniau adlinio'r arfordir wedi eu rheoli, fel y crybwyllwyd eisoes, yn cynnwys dymchwel amddiffynfeydd llifogydd aneconomaidd, lle mae baredau concrid wedi dal y môr yn ôl i warchod ffermdir, a dychwelyd y rhain i'r môr fel cynefin rhyng-lanwol. Mae projectau o'r fath yn ein galluogi i ailgyfeirio cronfeydd arian prin i warchod mannau arfordirol gyda blaenoriaeth uwch – yn cynnwys mannau lle mae llawer o bobl yn byw – ac ail-greu cynefinoedd morfa heli pwysig ar gyfer bywyd gwyllt mewn perygl. Mae projectau partneriaeth yr RSPB i adlinio ardaloedd arfordirol wedi bod yn hynod o lwyddiannus wrth ddod â phlanhigion y forfa heli yn ôl mewn byr amser yn ogystal â denu adar deniadol yn amrywio o'r cambig (ar ein safleoedd adlinio yn y de a'r dwyrain) i hwyaid yr eithin, hwyaid llostfain a phibyddion coesgoch (ledled ein safleoedd yn y DU).

Mae'r RSPB wedi gweithio gyda llywodraethau ers blynyddoedd lawer i ddatblygu cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n darparu cynefin bywyd gwyllt mewn tiroedd cynhyrchiol. Gyda golwg ar y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, byddwn yn siarad o blaid paratoi'r cynlluniau yma i sicrhau bod bywyd gwyllt yn derbyn cymorth i addasu i newid hinsawdd, yn rhannol drwy ddefnyddio mesurau sy'n bodoli eisoes i atgyfnerthu a gwarchod poblogaethau presennol, ac yn rhannol drwy ddatblygu mesurau newydd sy'n mynd i'r afael ag anghenion y dyfodol megis mwy o allu i storio dŵr i rwystro gwlyptiroedd rhag sychu.

Bydd hinsawdd sy'n newid yn y DU, gyda gwanwynau cynhesach, hafau poethach a thymor tyfu hirach, yn annog ffermwyr i dyfu cnydau newydd. Fe all y rhain amrywio o ehangu'r arwynebedd o India corn ymhellach tua'r gogledd yn y DU, i gyflwyno cnydau mwy egsotig fel ffrwythau isdrofannol. Efallai y bydd darparu cynefin i bryfed ymysg y cnydau hyn yn hanfodol i'w hyfywdra, oherwydd byddant yn dibynnu ar fywyd gwyllt i'w peillio.

Er bod yr holl enghreifftiau a drafodir yma'n dangos atebion sy'n sicrhau bod pobl a bywyd gwyllt yn ennill mewn tirlun aml-weithred, maent yn cynnwys rhyw fath o gyfaddawdu. Bydd y cyfaddawdu yma ymysg defnyddiau tir yn sicr o ddod yn fwyfwy amlwg yn y degawdau i ddod.

Mae ecosystemau'n darparu gwe gymhleth o wasanaethau i bobl, ac ni fyddai'n hawdd dod o hyd i ddim byd arall fyddai'n gwneud hyn. Maent yn cynnwys darparu'r bwyd, dŵr ffres, coed ar gyfer tanwydd ac adnoddau genetaidd sy'n cynnal bywydau a bywoliaethau pobl. Maent yn cynnwys defnydd diwylliannol, ysbrydol, ar gyfer hamdden, esthetig ac addysgiadol o'r amgylchedd naturiol. Rydym yn dibynnu ar dir ar gyfer yr holl wasanaethau ecosystem amlwg yma sy'n cynnal ac yn cyfoethogi ein bywydau, ac ar gyfer gwasanaethau llawer llai amlwg, hefyd, yn amrywio o reolaeth hinsawdd a llifogydd i gylchu maetholion. Eisoes mae ein gofynion yn cynyddu ac maent yn debygol o gynyddu fwyfwy. Wrth wneud penderfyniadau mae arnom angen ystyried yr holl wasanaethau a ddarperir gan dir a llunio prosesau teg ar gyfer penderfynu sut y darperir gwasanaethau o'r fath, ac i bwy. Mae hyn yn cynnwys eiriol dros fyd natur gan nad oes ganddo, hebom ni, lais o gwbl.

CADWRAETH AR RADDFA'R DIRWEDD: O WELEDIGAETH I WEITHREDU

Mae cadwraeth ar raddfa'r dirwedd yn ddull mentrus ac uchelgeisiol o fynd i'r afael â cholli a darnio cynefin, yr angen i gynorthwyo bywyd gwyllt i addasu i newid hinsawdd, a'r rheidrwydd i addasu ein hamgylcheddau naturiol ac adeiledig ar gyfer hinsawdd sy'n newid, ond mewn dull gwir gynaliadwy.

Amcan gweithredu ar raddfa'r dirwedd yw adfer gweithrediadau ecolegol ledled unedau cyfan o'r dirwedd, yn hytrach na gwarchod gwarchodfeydd natur neu safleoedd cyfyngedig. Golyga hyn greu mwy o gynefinoedd lle mae ardaloedd wedi mynd yn rhy ddarniog i gynnal y rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt, sy'n arbennig o bwysig o safbwynt rhostir a choedlannau. Mae'n golygu adfer hydroleg casgliadau o wlyptir ar raddfa sy'n caniatáu ail-ddechrau trefn dŵr naturiol a chynaliadwy, yn hytrach na sicrhau darnau bach o wlyptir a sychir gan dir wedi eu draenio o'u cwmpas – hanfodol ar gyfer dolydd gwlyb, a'r pryfed a'r rhydwyr sy'n nythu sy'n ddibynnol arnynt. Mae'n golygu sicrhau bod clytwaith o gynefinoedd yn cael eu rhoi'n ôl, yn aml wedi eu hintegreiddio gyda defnyddiau eraill o dir megis ffermio, coedwigaeth neu godi tai, sy'n caniatáu i fywyd gwyllt symud drwy dirwedd a ffynnu ynddi.

Yn ogystal â gwneud cefn gwlad yn well i fywyd gwyllt, mae cadwraeth ar raddfa'r dirwedd yn golygu gwneud cefn gwlad yn well ar gyfer pobl. Mae'n golygu cefn gwlad lle gall pobl ddathlu byd natur, cefn gwlad sy'n cynnal y cyflenwad bwyd, tanwydd, ffibr a dŵr y mae pobl eu hangen nawr ac yn y dyfodol.

Bydd gweithredu ar raddfa'r dirwedd yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â'r heriau yma i fywyd gwyllt a chymdeithas mewn pedair ffordd bwysig:

RHOI YMWNEUD Â'R GYMUNED A PHARTNERIAETHAU WRTH WRAIDD GWNEUD PENDERFYNIADAU YNGLŶN Â DYFODOL CEFN GWLAD

Mae amgylchedd naturiol ffyniannus yn gwella ansawdd byw pobl. Ond er mwyn i bobl elwa fwyaf o gadwraeth ar raddfa'r dirwedd, mae angen i gymunedau gael gwybodaeth dda ynglŷn â'r opsiynau o ran cadwraeth natur – mawr neu fach – yn eu hardal. Maent hefyd angen cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Efallai fod cymunedau lleol ar flaen y gad o ran gweithredu o ran cadwraeth, hefyd, boed hwy'n dirfeddianwyr neu'n rheolwyr tir, yn wirfoddolwyr dros gadwraeth, yn noddwyr busnes neu'n eiriolwyr a threfnwyr lleol. Dyna pam fod partneriaethau ymysg cymunedau, llywodraeth, busnes a chyrff cymdeithas sifil yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau gweledigaeth hyfyw ar y cyd o gadwraeth ar raddfa'r dirwedd, a'i gweithredu.

Mae cynefinoedd naturiol a lled-naturiol yn y DU yn darparu ystod eang iawn o wasanaethau ecosystem. Mae angen mwy o ymchwil i ganfod gwir hyd a lled a gwerth y gweithrediadau hyn, ond amcangyfrifir bod eu gwerth i'r DU yn gannoedd o filiynau o bunnoedd o ganlyniad i lai o risg llifogydd, gwell ansawdd dŵr, cadw ac atafaeliad, buddion o ran iechyd, refeniw o dwristiaeth a hamdden, a darpariaeth addysg. Efallai y bydd gweithredu dros fioamrywiaeth yn cynorthwyo gydag adfer gweithrediadau eraill i'r amgylchedd: er enghraifft, fe all adfer coedlannau brodorol ar gyfer cynefinoedd bywyd gwyllt hefyd gynyddu'r storfeydd naturiol o garbon a mannau ar gyfer hamdden i bobl eu mwynhau.

Roedd y rugiar ddu'n prysur ddiflannu o dir Cymru, ond bellach mae yma dros 200 o geiliogod

GRUGIAR DDU

I sôn am enghraifft arall, fe all creu safleoedd adlinio wedi eu rheoli ar yr arfordir greu cynefin bywyd gwyllt gwych a lleihau'r gost o geisio cynnal amddiffynfeydd cadarn aneconomaidd, ond mae'n bosibl y bydd yn golygu na fydd y tir hwnnw'n cynhyrchu. Yn anaml iawn y ceir penderfyniadau am reolaeth tir heb ryw fath o gyfaddawdu. Dyna pam ei bod yn bwysig bod rhanddalwyr yn cydweithio'n agos ar y lefel leol i sicrhau bod ymgynghori'n digwydd gyda'r cyrff a'r cymdeithasau perthnasol, a bod cymunedau'n cymryd rhan yn y broses o lunio atebion cynaliadwy ar gyfer eu hardal hwy.

CYNYDDU MAINT Y MANNAU A REOLIR AR GYFER CADWRAETH NATUR

Mae digon o dystiolaeth ar gael i ddangos na fydd pocedi bach o dir, wedi eu darnio a'u hynysu, yn debygol o gynnal y rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt – mewn cadwraeth natur mae maint yn wirioneddol bwysig[7]. Bydd angen safleoedd mwy, a reolir yn bennaf ar gyfer pwrpas cadwraeth natur, a gellir seilio'r rhain ar safleoedd bywyd gwyllt presennol. Fel arfer mae safleoedd mawr yn cynnig mwy o amrywiaeth o amodau ar gyfer ystod ehangach o rywogaethau. Maent yn cadw nodweddion sensitif draw o bwysau allanol fel llygredd, ac oddi wrth rhai o'r amodau hinsoddol anodd y byddwn yn disgwyl eu gweld, megis sychder. Er enghraifft, drwy wneud safleoedd gwlyptir yn fwy a dod o hyd i ddulliau mentrus o storio a rheoli dŵr, gallwch gadw'r mannau hynny mewn gwell cyflwr ar gyfer rhydwyr, llygod pengrwn y dŵr, gweision y neidr a rhywogaethau eraill y gwlyptir wrth i'n hafau ddod yn fwy poeth a sych. Mae safleoedd mawr yn caniatáu rheolaeth fwy cost-effeithiol, yn gwneud gwell defnydd o brosesau naturiol, ac maent yn cynnal rhywogaethau y mae arnynt angen clytwaith o wahanol gynefinoedd neu ystod fawr i gwblhau eu cylch bywyd.

RHEOLI CEFN GWLAD I GYNORTHWYO RHYWOGAETHAU I ADDASU I NEWID HINSAWDD

Yn ogystal â sicrhau bod cynefinoedd yn gallu gwrthsefyll newid hinsawdd yn well drwy gynyddu maint mannau gwarchodedig, mae'n bosibl gweithredu ymyrraeth wedi ei dargedu i gynorthwyo rhywogaethau unigol i ymdopi. Er enghraifft, gallwn ddatblygu dulliau o reoli ar gyfer gwyntoedd cryfach wrth i ddigwyddiadau'r tywydd ddod yn fwy eithafol – effaith arall newid hinsawdd a ragwelir. Ar laswelltiroedd, gallwn addasu'r drefn bori a thorri ar gyfer tymhorau tyfu hirach a pharhau i ddarparu glaswellt ar yr uchder priodol ar gyfer rhydwyr sy'n nythu.

Mae modelu'n dangos graddfa eang a hyd a lled sylweddol symudiadau disgwyliedig rhywogaethau. Ni fydd rhagamcaniadau o symudiadau potensial rhywogaethau i'r gogledd ac i uchderau uwch yn golygu dim os na fydd cynefinoedd priodol ar gael i'r rhywogaeth dan sylw. Dim ond mannau gweddol fach o'n cefn gwlad presennol sy'n cael eu gwarchod neu'n cael eu rheoli fel cynefin ar gyfer bywyd gwyllt. Gosodir y rhain o fewn tirwedd ehangach sy'n cynnwys llawer o rwystrau o ran symud, yn cynnwys trefi a dinasoedd, ffyrdd a rheilffyrdd, a ffermdir a choedwigaeth a reolir yn ddwys sydd ag ychydig iawn o gynefin addas. Mewn tirwedd gynhyrchiol, fe all ystod o fesurau syml ac ymarferol wneud cefn gwlad yn well i fywyd gwyllt ac yn haws i rywogaethau symud drwyddo: nodweddion megis gwrychoedd, pyllau, ffosydd llawn dŵr, coedlannau a mannau o brysgwydd, a chyrion caeau. Fe all cynlluniau amaeth-amgylchedd gynnal llawer o'r nodweddion yma – maent yn gwneud hyn yn barod – ond rhaid iddynt gael eu hariannu'n llawn a bod yn hawdd ymuno ô hwy.

RHOI CADWRAETH NATUR WRTH WRAIDD EIN HYMATEB I BWYSAU NEWYDD AR GEFN GWLAD

Fel y nodwyd eisoes, fe all y mesurau a ddewiswn i osgoi newid hinsawdd beryglus drawsnewid rhannau o'n cefn gwlad. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod dau darged newid hinsawdd allweddol: y cyntaf yw lleihau gollyngiadau o nwyon tŷ gwydr (NTG) o ffynonellau Cymreig o 2011 o 3% a'r ail yw gwireddu lleihad o 40% mewn NTG erbyn 2020 o lefelau cyn-ddiwydiannol. Gosodir y targedau hyn o fewn gofynion y Ddeddf Newid Hinsawdd am leihad o 80% mewn NTG o lefelau cyn-ddiwydiannol erbyn 2050.

Targed ynni adnewyddadwy allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw ein bod yn anelu at fod yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy Cymru erbyn 2025. Ynni gwynt yw'r ffynonellau yma'n bennaf, ar y lan ac ar y môr; hefyd llosgi biomas, o bren lleol a phren a fewnforir; ynni llanwol, o ystod llanw'r môr a llif; a gosodiadau micro-gynhyrchu – tyrbinau gwynt bach neu baneli haul a osodir mewn tai a busnesau ac o'u cwmpas.

Gyda chynllunio gofalus, penderfynu ar safle a gwerthuso effeithiau ar fywyd gwyllt, gellir datblygu'r holl dechnolegau hyn i warchod a hyd yn oed i wella buddion i fywyd gwyllt. Mae'n hanfodol eu bod yn gwneud hyn, er mwyn gwarchod bioamrywiaeth ar gyfer heddiw ac yfory. Fe all yr amrywiol bwysau eraill a ragwelir i gefn gwlad y DU yn y degawdau i ddod – mwy o gynhyrchu amaethyddol, tai, isadeiledd a datblygiadau eraill – hefyd, olygu goblygiadau mawr i fywyd gwyllt. Ar raddfa'r dirwedd, rhaid cynllunio'r datblygiadau hyn yn strategol mewn ffordd sy'n gadael lle i fywyd gwyllt ac ar gyfer cynefinoedd ffyniannus i'w gynnal.

Er ein bod yn gallu rhagweld llawer o'r heriau i'n cefn gwlad yn y dyfodol, mae'r manylion – yn naturiol – yn parhau'n ansicr. Mae gwir effeithiau newid hinsawdd, ymateb bywyd gwyllt a phobl i effeithiau hinsawdd, a thueddiadau cymdeithasol ac economaidd eraill yn y dyfodol, yn awgrymu y bydd dadleuon cynhennus dros ddefnydd tir, a chefn gwlad lle bydd lle i fywyd gwyllt o dan bwysau. Mae dull o weithredu cadwraeth ar raddfa'r dirwedd yn helpu i greu hyblygrwydd i bobl a bywyd gwyllt a'u galluogi i addasu i'r holl bwysau anhysbys yma yn y dyfodol.

ADFER BYD NATUR MEWN BYD CYMHLETH

Mae'r RSPB yn siarad o blaid dull o weithredu sy'n cynnal y prosesau ecolegol sy'n gyrru'r byd naturiol yn ogystal â dull o benodi targed ar gyfer y rhywogaethau sydd fwyaf angen ein cymorth. Mae ein hecosystemau wedi eu niweidio gormod, yn rhy ddarniog ac yn rhy fach i ddibynnu'n llwyr ar ymateb rhywogaethau i fesurau eang eu cwmpas. Cymhlethir y risg hwn gan yr ansicrwydd a wynebir mewn perthynas â hinsawdd sy'n newid.

Rydym wedi bod ar flaen y gad o ran dangos yr hyn y mae'n bosibl ei wireddu drwy waith wedi ei dargedu ac wedi ei ymchwilio'n dda, ac wedi ei ganolbwyntio ar rywogaethau. Dyma ddull o weithredu a ddeillia o'n hanes ac mae'n ganolog i'n dymuniad i sicrhau ein bod yn gallu trosglwyddo byd naturiol sydd mewn gwell cyflwr nag y mae ar hyn o bryd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae ffyniant presennol y cambig, gwalch y pysgod, aderyn y bwn, rhegen yr ŷd, y barcud, yr eryr môr, bras Ffrainc, rhedwr y moelydd, y glöyn byw y glesyn mawr, pryfed hofran y goeden aethnen a chacwn mawr melyn i gyd yn dangos bod gwaith cadwraeth sy'n canolbwyntio ar rywogaethau'n gweithio.

Yn rhy aml, mae buddion gweithredu un ai ar gyfer ecosystem neu ar gyfer rhywogaeth yn cael eu cynnig fel dewis arall. Credwn mai'r ateb yw cyfuniad deallusol o ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol ochr yn ochr â strategaethau cadwraeth natur effeithiol sy'n sicrhau buddion i rywogaethau a chynefinoedd. Er mwyn cyfuno'r ddau ddull o weithredu rhaid gweithredu ar raddfa'r dirwedd.

Y barcud: wedi iddo bron â diflannu o'r tir ym Mhrydain mae bellach 1,350 o barau'n nythu

BARCUD

RHAGLEN TIRWEDD Y DYFODOL YR RSPB

BRITHEG BERLOG FACH

Tirwedd y Dyfodol yw rhaglen yr RSPB o fentrau ar raddfa'r dirwedd a fydd yn adeiladu ar ein cryfderau, mewn partneriaeth ag eraill, i sicrhau newid sylfaenol mewn rheolaeth cefn gwlad gynaliadwy.

Mae'n seiliedig ar ein gwybodaeth bresennol orau o beth sydd ei angen ar fywyd gwyllt i ffynnu nawr ac yn y dyfodol agos, a'i nod yw darparu digon o hyblygrwydd i gynllunio ar gyfer mwy o ymledu gan rywogaethau ac anghenion newydd cymdeithas, flynyddoedd lawer yn y dyfodol.

Amcan Tirwedd y Dyfodol yw cyfrannu at chwyldro mewn ffordd o feddwl a gweithredu cadwraeth natur ar raddfa sy'n gallu gwneud gwir wahaniaeth. Bydd ein rhaglen yn cyfannu, yn ychwanegu at ac yn cynnal symudiad sy'n tyfu, yn cynnwys yn arbennig y rhaglen Tirweddau Byw a arweinir gan yr Ymddiriedolaethau Byd Natur a mentrau eraill ledled y gymuned gadwraeth. Mae'r mentrau hyn yn rhannu gweledigaeth gyffredin: gweld byd natur yn ffynnu mewn tirwedd sy'n darparu gwasanaethau ecosystem ac sy'n cynnal diwydiannau gwledig ac ysbrydoli'r miliynau o bobl sy'n byw ynddi ac sy'n ymweld â hi bob blwyddyn. Yr hyn sy'n allweddol yw cydweithio i lunio dyfodol i gefn gwlad sy'n briodol i bawb.

Mae'r RSPB wedi dechrau gweithio i wireddu'r nod hon drwy ddatblygu cyfran gyntaf o fentrau Tirwedd y Dyfodol ledled y DU. Mae oddeutu 40 o safleoedd yn ein rhaglen ac mae'r nifer yn debygol o gynyddu. Ar y safleoedd hyn, rydym yn prynu neu'n ehangu gwarchodfeydd natur, rydym yn datblygu cynlluniau adfer rhywogaethau ar gyfer bywyd gwyllt dan fygythiad ac rydym yn ehangu ein cyngor rheolaeth cadwraeth ar lefel stad y fferm a hefyd yn strategol ar sawl lefel gofodol. Lleolir pob un o'r projectau hyn mewn ardaloedd o'r DU lle mae gan yr RSPB ddealltwriaeth dda o sefyllfaoedd lleol a lle'r ydym yn rhan o bartneriaethau cryf a all sicrhau bod mesurau cadwraeth yn cael eu gwireddu.

CYMRU

Ar hyn o bryd mae RSPB Cymru yn cydweithio gydag ystod o bartneriaid cenedlaethol a lleol wrth ddatblygu ei phortffolio o safleoedd Tirwedd y Dyfodol ledled y wlad.

Yn benodol, mae hi'n gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i asiantaethau i ddarparu dull o weithredu cadwraeth ar raddfa'r dirwedd.

RHOSTIR GOGLEDD CYMRU

Tirwedd eang ar yr ucheldir yw hon, yn ymestyn o Flaenau Ffestiniog yn y gorllewin i Wrecsam yn y dwyrain. Dyma ardal o dirwedd drawiadol a amaethir, clytwaith o rostir yr ucheldir, coedlannau, glaswelltir a gorgors sy'n cynnal y rhywogaethau o adar â blaenoriaeth, yn ogystal â phlanhigion a chreaduriaid eraill, y dynodwyd llawer o'r ardal o'u herwydd. Yma, mae RSPB Cymru'n cydweithio gyda llawer o bartneriaid, yn cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, ar ystod eang o brojectau. Ymysg y rhain mae gwaith rheolaeth ar ran rhywogaethau eiconig megis y rugiar ddu ac adferiad gorgorsydd, ynghyd â fferm fynyddig organig eang, a weithredir ar ran Dŵr Hafren Trent, ar ein gwarchodfa bwysig ar lan Llyn Efyrnwy.

GWASTADEDDAU GWENT

Ardal eang o orlifdir arfordirol, morfa heli a phonciau lleidiog rhyng-lanwol yw Gwastadeddau Gwent. Mae hi'n hynod o bwysig i'r rhanbarth. Mae yma botensial i wella gwerth y cynefinoedd a sicrhau mwy o fuddion sylweddol ar gyfer bywyd gwyllt, yn ogystal ag ansawdd bywyd pobl Casnewydd ac ymwelwyr â'r ardal. Bydd defnyddio bywyd gwyllt fel canolbwynt gwaith adfer yn gwireddu buddion lu dros ansawdd dŵr a rheoli risg llifogydd, wrth weithio gydag Asiantaeth Amgylchedd Cymru a phartneriaid eraill. Amcan ein rhaglen Tirwedd y Dyfodol yw amlygu'r materion hyn a gwireddu potensial cydweithio mewn partneriaeth.

Bydd Canolfan Addysg Amgylcheddol ac Ymwelwyr Gwlyptiroedd Casnewydd, a weithredir gan RSPB Cymru ac a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd, yn darparu pwynt canolog ar gyfer y cynllun Tirwedd y Dyfodol hwn.

GYLFINIROD

GWEITHREDU NAWR GAN Y LLYWODRAETH

Ni wireddwyd y targed o arafu a gwrthdroi'r colledion mewn bioamrywiaeth erbyn 2010. Er gwaethaf llawer llwyddiant, mae'n amlwg nad yw ein harfau presennol yn ddigon i warchod byd natur yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Mae rhaglen Tirwedd y Dyfodol yr RSPB yn amlinellu rhaglen uchelgeisiol o weithredu a arweinir gan un gymdeithas, ond ni fydd yn ddigon ar ei ben ei hun. Hyd yn hyn, mae cadwraeth ar raddfa'r dirwedd wedi ei chyfyngu gan ddiffyg ariannu a rhy ychydig o gefnogaeth ymysg llunwyr polisi. Mae targed bioamrywiaeth newydd Ewrop ar gyfer 2020 yr un mor uchelgeisiol, os nad yn fwy uchelgeisiol, na'r un yr ydym newydd fethu ei gwireddu. Yng Nghymru rydym hefyd wedi ymrwymo i darged Strategaeth Amgylchedd Cymru o sicrhau bod adferiad bioamrywiaeth ar waith erbyn 2026.

Mae arnom angen arfau newydd os ydym am fynd i'r afael â'r her hon: arfau newydd sy'n troi cadwraeth ar raddfa'r dirwedd o bosibilrwydd i debygolrwydd; arfau sy'n adlewyrchu cyfraniad enfawr byd natur i les Cymru gyda lefel briodol o ariannu penodol.

Mae'r RSPB yn galw am yr ymrwymiadau canlynol gan y Llywodraeth i alluogi bywyd gwyllt i ffynnu ar hyd a lled Cymru:

Cydnabod pwysigrwydd y dull o weithredu cadwraeth natur ar raddfa'r dirwedd a bod ar flaen y gad yn ddeallusol wrth yrru'r dull hwn ymlaen, i adeiladu ar waith ar ardaloedd gwarchodedig a chadwraeth benodol ar gyfer rhywogaethau a dargedir, a'u cyfannu.

Sicrhau bod fframweithiau polisi a chynllunio priodol ar waith i hyrwyddo dull o weithredu ar raddfa'r dirwedd.

Cyflwyno mecanweithiau mentrus ar gyfer ariannu dull o weithredu ar raddfa'r dirwedd, sicrhau bod mecanweithiau ariannu sydd eisoes yn bodoli yn gweithio'n galetach dros fywyd gwyllt a sicrhau nad yw gwariant cyhoeddus yn cael effeithiau negyddol ar y ffynhonnell o adnoddau naturiol.

Dylai asiantaethau'r Llywodraeth ymgymryd â phrojectau peilot i brofi'r dull o weithredu ar raddfa'r dirwedd. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth ag eraill, ddysgu'r gwersi yn dilyn ymarfer er mwyn cyflenwi gwybodaeth ar gyfer llunio polisïau yn y dyfodol.

CYNULLIAD CYMRU

GWEITHIO GYDA CHI

Mae gan RSPB Cymru brofiad maith o gynorthwyo i osod y byd naturiol wrth wraidd gwneud penderfyniadau; rydym wedi gwneud hyn yn aml mewn cydweithrediad â chymunedau ac mewn partneriaethau gyda fframwaith eang. Mae RSPB Cymru yn cael ei nerth a'i hysbrydoliaeth wrth weld brwdfrydedd pobl am y byd naturiol.

"Ar ôl ein diwrnod ar Wlyptiroedd Casnewydd roedd y merched yn frwdfrydig iawn dros fyd natur, a gobeithio y bydd hyn yn gychwyn cariad gydol oes o fyd natur a gofal am adar gartref ac yn agos at eu Grwpiau Geidiau arbennig hwy. Drwy geidio mae'r merched yn cael cyfle i roi cynnig ar weithgareddau newydd, mewn amgylcheddau dieithr, ac roedd hyn yn antur enbyd i bob un o'n merched. Roeddent ymysg ffrindiau ac yn fwy na dim fe gawsant beth wmbredd o hwyl ar y diwrnod."
Helen Cann, o Geidio Gwent, yn dilyn dathliad y Geidiau ar Warchodfa Natur Genedlaethol Gwlyptiroedd Casnewydd

Mae ein rhaglen Tirwedd y Dyfodol yn gosod her i ni adeiladu ar ein profiad a gweithredu'n gyson y gwersi a ddysgwyd gennym o'n projectau mwyaf llwyddiannus a pharhaus. Wrth gydnabod a derbyn her gwir ymwneud sydd hefyd yn ein grymuso, credwn y bydd yr amgylchedd naturiol yn elwa a byddwn yn cychwyn ar daith gyda'n gilydd a fydd â'r grym i newid bywydau.

"Yn llythrennol mae gorgors ucheldir y Berwyn wedi cael bywyd newydd – a bydd cymdeithas i gyd yn elwa o hyn."
Sylwadau Tim Jones, Rheolwr Rhanbarthol Gogledd Cymru Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ar Broject LIFE Gorgors Fyw Cymru, sy'n rhan o Dirwedd y Dyfodol Rhostir Gogledd Cymru

Hanes sydd wedi llunio'r tirweddau a nodwyd o fewn ein rhaglen Tirwedd y Dyfodol ac maent wrth wraidd eu cymunedau. Dim ond trwy gydweithio a bod â pharch y naill i'r llall y gallwn wireddu ein gweledigaeth ar y cyd.

Cysylltwch â ni i drafod sut allwn gydweithio i sicrhau bod ein cefn gwlad yn un sy'n llawn o fywyd gwyllt ac yn well i bobl, nawr ac yn y dyfodol.

CYSYLLTWCH Â NI

PENCADLYS CYMRU
Tŷ Sutherland, Pontycastell,
Heol Ddwyreiniol y Bont-faen,
Caerdydd CF11 9AB
Ffôn: 029 2035 3000

PENCADLYS Y DU
The Lodge, Sandy,
Swydd Bedford SG19 2DL
Ffôn: 01767 680551

PENCADLYS GOGLEDD IWERDDON
Belvoir Park Forest,
Belfast BT8 7QT
Ffôn: 028 9049 1547

PENCADLYS YR ALBAN
Dunedin House,
25 Ravelston Terrace,
Caeredin EH4 3TP
Ffôn: 0131 311 6500

LLYN EFYRNWY

GWASTADEDDAU GWENT

SWYDDFEYDD RHANBARTHOL YR RSPB

SWYDDFA GOGLEDD CYMRU
Uned 14, Llys Castan, Parc Menai,
Bangor, Gwynedd LL57 4FD
Ffôn: 01248 672850

SWYDDFA RANBARTHOL Y CANOLDIR
46 The Green, South Bar, Banbury,
Swydd Rydychen OS16 9AB
Ffôn: 01295 259330

SWYDDFA BIRMINGHAM
Ystafell 70, 4ydd Floor, Guildhall Buildings,
Stephenson Street, Birmingham B2 4BT
Ffôn: 0121 616 6850

SWYDDFA RANBARTHOL
DWYRAIN LLOEGR
Stalham House, 65 Thorpe Road,
Norwich NR1 1UD
Ffôn: 01603 661662

SWYDDFA ARDAL LLUNDAIN
Ail Lawr, 65 Petty France,
Llundain SW1H 9EU
Ffôn: 020 7808 1240

SWYDDFEYDD RHANBARTHOL
GOGLEDD LLOEGR
Westleigh Mews, Wakefield Road,
Denby Dale, Huddersfield HD8 8QD
Ffôn: 01484 861148

1 Syrius House, Amethyst Road,
Newcastle Business Park,
Newcastle upon Tyne NE4 7YL
Ffôn: 0300 7772 676

SWYDDFA LANCASTER
Rhanbarth Gogledd Lloegr yr RSPB,
7.3.1 Cameron House, White Cross Estate,
Lancaster LA1 4XQ

SWYDDFA RANBARTHOL
DE DDWYRAIN LLOEGR
Ail Lawr, Frederick House,
42 Frederick Place, Brighton,
East Sussex BN1 4EA
Ffôn: 01273 775333

SWYDDFA RANBARTHOL
DE ORLLEWIN LLOEGR
Keble House, Southernhay Gardens,
Exeter, Dyfnaint EX1 1NT
Ffôn: 01392 432691

SWYDDFA RANBARTHOL
DWYRAIN YR ALBAN
10 Albyn Terrace, Aberdeen AB10 1YP
Ffôn: 01224 624824

SWYDDFA RANBARTHOL
GOGLEDD YR ALBAN
Etive House, Beechwood Park,
Inverness IV2 3BW
Ffôn: 01463 715000

SWYDDFA RANBARTHOL DE
A GORLLEWIN YR ALBAN
10 Park Quadrant, Glasgow G3 6BS
Ffôn: 0141 331 0993

www.rspb.org.uk/futurescapes

TIRWEDD Y DYFODOL

LLE I FYD NATUR TIR I GYNNAL BYWYD

www.rspb.org.uk/futurescapes

Mae RSPB Cymru yn rhan o'r RSPB, sy'n siarad o blaid adar a bywyd gwyllt, ac yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n bygwth ein hamgylchedd. Mae byd natur yn anhygoel – dewch i'n helpu i'w gadw felly.

Rydym yn aelod o BirdLife International, y bartneriaeth fyd-eang o gyrff gwarchod adar.

Troednodiadau: 1 Natural England. *Lost Life*, 2010. 2 Donald *et al*, 2007. *Science* 317, 810. 3 Secretariat of the Convention on Biological Diversity. (Rhagfyr 2008), Darganfyddiadau drafft y grŵp arbenigedd technegol ad hoc ar fioamrywiaeth a newid hinsawdd. 4 *Warming* Swyddfa'r Tywydd, 2009. 5 *Warming* Swyddfa'r Tywydd, 2009. 6 Foresight, Executive Summary, tudalennau 12–13. www.foresight.gov.uk/OurWork/ActiveProjects/LandUse/lufoutputs.asp (mynediad 14 Mai 2010). 7 Donald, Paul. *Climate change and habitat connectivity; assessing the need for landscape-style adaptation for birds in the UK*. RSPB, Sandy, 2005.

DELWEDDAU: Llyn Efyrnwy gan David Wootton, plant gan Jesper Mattias, bras yr eira gan Roger Tidman, cornchwiglen gan Steve Knell, Mynyddoedd y Berwyn gan Ben Hall, pathew gan David Kjaer, telor Dartford gan Mike Read, tylluan wen gan Nigel Blake, llyn efyrnwy gan Eleanor Bentall. grugiar ddu gan Mark Hamblin, barcud gan Danny Green, britheg berlog fach gan Steve Knell, Canolfan Gwlyptiroedd Casnewydd gan Wasanaeth Newyddion Cymru, gylfinirod gan Mark Hamblin, llyn efyrnwy gan Eleanor Bentall a Gwastadeddau Gwent gan David Wootton (rspb-images.com i gyd); Cynulliad Cymru gan iStockphoto.com.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn elusen gofrestredig:
Lloegr a Chymru rhif 207076, Yr Alban rhif SC037654. 220-1846-09-10